

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol White Rose,
Meddygfa Cwm Rhymni /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad arolygu: 2 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 3 Rhagfyr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	19
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu practisiau meddygon teulu.....	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol White Rose, Meddygfa Cwm Rhymni, Tredegar Newydd, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 2 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), rheolwr arolygu cynorthwyol, adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cael ei reoli'n dda, a rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu gofal, a gwelsom fod y staff yn broffesiynol ac yn garedig wrth ymdrin â'r cleifion.

Roedd dogfennaeth o fewn cofnodion y cleifion o safon foddhaol.

Gwelsom nad oedd y practis bob amser wedi paratoi i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ac felly nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Nid oedd y practis yn cwblhau gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar dadebru brys, ac felly nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwnaethom nodi nad oedd presgripsiynau cleifion a lofnodwyd yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd hyn yn peri risg bosibl o dorri cyfrinachedd y cleifion, a dwyn presgripsiynau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom y staff yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn garedig tuag at y cleifion
- Mae gan y practis ardal aros fawr a glân i'r cleifion sydd â chornel i blant, digon o seddi a cherddoriaeth amgylchol
- Roedd systemau ar waith er mwyn galluogi'r cleifion i wneud apwyntiadau brys ar y diwrnod ac apwyntiadau arferol ymlaen llaw
- Roedd apwyntiadau arferol yn cael eu gwirio bob wythnos, er mwyn sicrhau bod y practis yn darparu nifer briodol o apwyntiadau
- Cynnig oriau estynedig ar ddydd Mawrth a dydd Gwener

Argymhellwn y dylai'r gwasanaeth wella o leiaf y canlynol:

- Y trefniadau ar gyfer gwirio cyfarpar dadebru brys
- Y broses o storio presgripsiynau a lofnodwyd yn ddiogel

- Adleoli'r peiriant ffacsimili er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion
- Argaeledd gwybodaeth ddwyieithog yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol
- Hyfforddiant staff ar ddiogelu
- Adolygu a diweddarau'r polisïau.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â gwirio cyfarpar dadebru brys o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Feddygol White Rose yn Nhredegar Newydd yn rhan o Feddygfa Cwm Rhymni ynghyd â phractisiau cangen yn Rhymni a Deri, a chaiff ei chefnogi gan dîm amlddisgyblaethol. Mae Meddygfa Cwm Rhymni yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol i Gwm Rhymni uchaf mewn ardal o amddifadedd uchel. Mae'r practis grŵp yn darparu gwasanaethau i tua 13,000 o gleifion, gyda thua 7000 wedi'u cofrestru â'r practis yn Nhredegar Newydd. Gall y cleifion gael mynediad at wasanaethau meddyg teulu o unrhyw un o'r practisau.

Mae Meddygfa Cwm Rhymni yn rhan o'r gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n aelod o grŵp clwstr Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN) Gogledd Caerffili; trefniant lle mae wyth practis yn cefnogi ei gilydd ac yn cydweithio. Fel rhan o'r grŵp clwstr NCN, mae Meddygfa Cwm Rhymni yn cymryd rhan yn y fenter cymunedau tosturiol sy'n ceisio gwella bywydau gwaith timau clinigol, gwella canlyniadau'r cleifion a lleihau derbyniadau brys.

Mae Meddygfa Cwm Rhymni yn bractis hyfforddi sefydledig ac mae hefyd yn mentora fferyllwyr lleol drwy'r rhaglen rhagnodi annibynnol.

Mae practis Meddygfa Cwm Rhymni yn cyflogi tîm o staff sy'n gweithio yn y tri phractis gan gynnwys Canolfan Feddygol White Rose yn Nhredegar Newydd. Mae'r tîm o staff yn cynnwys saith partner sy'n feddygon teulu, un meddyg cyflogedig, dau uwch-ymarferydd nyrsio, pedair nyrs practis a thri gweithiwr cymorth gofal iechyd, fferylllydd a ffisiotherapydd. Mae'r tîm anghlinigol yn cynnwys rheolwr y practis, dirprwy reolwr y practis a rheolwr y dderbynfa, tri chlerc rhagnodi, dau godiwr, dau sganiwr, un ysgrifennydd ac un gweinyddwr, a deg aelod o staff y dderbynfa.

Mae gan Feddygfa Cwm Rhymni wefan a thudalen Facebook gynhwysfawr, sy'n rhoi manylion am y gwasanaethau, y cyfleusterau a gwybodaeth gysylltiedig arall sy'n ymwneud â Chanolfan Feddygol White Rose yn Nhredegar Newydd.

Mae Canolfan Feddygol White Rose darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau meddygol cyffredinol
- Clinigau mân salwch

- Fflebotomi (cymryd samplau gwaed)
- Profion gwaed glwcos a cholesterol
- Clinig cynenedigol
- Sgrinio serfigol
- Ffisiotherapi
- Imiwneiddio oedolion a phlant
- Gwasanaethau cwnsela ar gamddefnyddio sylweddau
- Clinigau pwysedd gwaed a chyfleusterau hunanfonitro.

Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cefnogi anghenion gofal iechyd eraill y gymuned, drwy ddarparu'r gwasanaethau canlynol o Ganolfan Feddygol White Rose:

- Gofal deintyddol
- Clinigau lleferydd ac iaith
- Gwasanaeth ymwelwyr iechyd sy'n darparu clinigau iechyd plant
- Bydwreigiaeth, clinigau cynenedigol a chlinigau ôl-enedigol
- Clinigau clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD)
- Adolygiadau o feddyginiaethau.

Er hwylustod, cyfeirir at Ganolfan Feddygol White Rose yn Nhredegar Newydd fel y practis drwy gydol yr adroddiad hwn.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn dda iawn a nodwyd sylwadau cadarnhaol am y staff.

Roedd mynediad da ar gyfer pob ymwelydd, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn a'r rhai hynny sydd â phroblemau symudedd. Gellid gwneud apwyntiadau brys ar y diwrnod a chânt eu brysbennu gan feddyg teulu, a fydd yn cyfeirio'r cleifion at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol. Yn ogystal, mae'r cleifion yn cael dewis gwneud apwyntiadau arferol ymlaen llaw.

Nid oedd gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn tynnu sylw at fanylion am y gwasanaethau a ddarperir, prosesau a gwybodaeth arall. Fodd bynnag, mae hyn ar gael ar wefan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Cafwyd cyfanswm o 43 o holiaduron.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r gwasanaeth bob amser wedi bod yn ardderchog. Mae'r meddygon, y nyrsys a'r holl staff yn glod i'r feddygfa"

"Mae'r staff i gyd yn ofalgar iawn. Nid wyf erioed wedi cael achos i gwyno"

"Rwyf bob amser wedi cael gofal a gwasanaeth da gan y practis hwn. Maent bob amser yn sylwgar ac yn gymwynasgar gyda'm hymholiadau"

Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth o bosteri, taflenni a deunydd darllen arall sy'n ymwneud â gwasanaethau'r practis a gwybodaeth am y GIG ar gael i'r cleifion, yn y cyntedd ac yn ystafell aros y cleifion yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

Tudalen 10 o 40

Mae'r practis yn cefnogi'r fenter cymunedau tosturiol¹ a chymunedau sy'n ystyriol o ddementia ac mae'n cynnal archwiliad iechyd Byw'n Dda, Byw'n Hirach².

Roedd mentrau hybu iechyd a gwasanaethau llesiant yn cael eu hysbysebu, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, gofal deintyddol, ymarfer corff, rheoli pwysau a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol.

Nid yw'r practis yn cynnig cyfleuster arolwg cleifion i gasglu barn y cleifion, ac felly nid yw'n gallu gwella ei wasanaethau yn seiliedig ar arsylwadau ac adborth y cleifion. Cawsom wybod bod y cleifion yn gallu rhoi adborth ar y wefan ac wyneb yn wyneb â'r staff yn y practis.

Mae'r wefan a'r dudalen Facebook yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr gan gynnwys manylion cyswllt, amseroedd agor, clinigau a gwasanaethau. Fodd bynnag, ni chyflwynir y wybodaeth hon yn ddwyieithog. At hynny, nid oes gan y practis daflen am y practis ar gyfer y cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrdd neu nad ydynt yn gyfarwydd â thechnoleg gwybodaeth o bosibl.

Gwelliannau angenrheidiol

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Darparu'r holl wybodaeth yn ddwyieithog, yn y practis ac ar y wefan, yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol
- Cyflwyno cyfleuster arolwg cleifion, casglu barn y cleifion gyda'r bwriad o wella gwasanaethau lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'n rhaid i welliannau ac ychwanegiadau i wasanaethau gael eu harddangos yn ystafell aros y cleifion ac ar y wefan

¹ Mae cymunedau tosturiol yn fenter sy'n nodi cleifion nad oes angen gwasanaethau meddyg teulu arnynt o reidrwydd ond a all elwa ar gefnogaeth gan asiantaethau a rhwydweithiau cymorth eraill.

² <https://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/page/89820>

- Datblygu taflen am y practis sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a nodir ar y wefan.

Gofal ag urddas

Mae'r practis yn darparu mynediad da i ddefnyddwyr cadair olwyn a'r rheini â phroblemau symudedd. Roedd digon o leoedd parcio ag ymyl palmant isel hefyd ar gael, a hynny gerllaw'r prif adeilad. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd mynd i mewn i'r adeilad ar y cyfan.

Roedd ystafell aros fawr a glân i'r cleifion gyda chornel i blant, digon o seddi a cherddoriaeth amgylchol. Roedd y cleifion yn gallu mewngofnodi i'r system apwyntiadau er mwyn cadarnhau eu bod wedi cyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad. Roedd ystafell breifat hefyd ar gael ar gyfer sgysiau cyfrinachol os oedd angen.

Gwelsom y cleifion yn cael eu cyfarch gan y staff mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar wrth ddesg derbynfa'r practis. Gellid clywed sgysiau ffôn o ystafell aros y cleifion, ond nodwyd bod y staff yn diogelu cyfrinachedd pob galwad, ac ni ddatgelwyd unrhyw wybodaeth bersonol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis. Gwnaethant gadarnhau hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â'r staff, ac yn teimlo'n ddiogel wrth fynd i'r practis.

Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth wedi'u lleoli mewn esgyll ar wahân i brif gyntedd y cleifion. Roedd pob drws ar gau yn ystod ymgynghoriadau, ac roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu diogelu ymhellach gan sgriniau o gwmpas y gwelyau archwilio a bleindiau ar y ffenestri.

Mae swyddfa'r dderbynfa yn ardal agored fawr, â mynediad uniongyrchol i ystafell aros y cleifion. Nid oedd y drws i swyddfa'r dderbynfa'n cael ei gloi fel mater o drefn ac, ar brydiau, cafodd ei adael ar agor yn ystod yr arolygiad, gan roi cyfrinachedd cofnodion y cleifion a diogelwch y staff mewn perygl o bosibl.

Gwelsom hysbysiadau yn ardal aros y cleifion, a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut i ofyn am hebryngwr, os bydd angen yn ystod ymgynghoriad. Fodd bynnag, wrth edrych ar gofnod meddygol claf a oedd wedi cael archwiliad o natur bersonol, nid oedd unrhyw gofnod a oedd y claf wedi cael cynnig hebryngwr, ac nid oedd ymateb gan y claf chwaith.

Gwnaethom edrych ar y polisi Hebryngwyr, a nodi nad oedd yn darparu canllawiau ar gyfrifoldeb y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i gofnodi a oedd hebryngwr yn cael ei gynnig, na phenderfyniad y claf i dderbyn neu wrthod y cynnig. Felly, dylid adolygu a diweddarau'r polisi yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)³.

Gwelliannau angenrheidiol

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod swyddfa'r staff yn y dderbynfa ar gau bob amser, ac wedi'i chloi yn ddelfrydol, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r staff
- Y caiff y polisi hebryngwyr ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu canllawiau arferion da GMC ar gyfer hebryngwyr.

Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Nid oes gan y practis daflen am y practis, ond mae ganddo wefan gynhwysfawr a thudalen Facebook sy'n rhoi gwybodaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol⁴, drwy ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd cryn dipyn o wybodaeth am y practis a'r GIG ar gael i'r cleifion yng nghyntedd y practis ac yn ardal aros y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r wybodaeth hon yn ddwyieithog.

Cawsom wybod bod yr oedi mewn perthynas ag amseroedd apwyntiadau yn cael ei gyfleu i'r cleifion ar lafar.

³ <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/intimate-examinations-and-chaperones>

⁴ Ystyr "Cynnig Rhagweithiol" yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano, gan sicrhau bod y Gymraeg mor weladwy â'r Saesneg.

Gall y cleifion godi pryderon, ac roedd poster ar gyfer proses Gweithio i Wella GIG Cymru⁵ yn cael ei arddangos yn ardal aros y cleifion. Fodd bynnag, nid yw polisi cwynion y practis yn cynnwys manylion am y cymorth eiriolaeth na'r ombwdsmon.

Roedd y practis yn arddangos fersiwn NHS England o *Your Data Matters*⁶, yn hytrach na'r fersiwn ar gyfer Cymru, sef Eich Gwybodaeth, Eich Hawliau/ *Your Information, Your Rights*⁷. Mae'r wybodaeth hon yn amlinellu'r ffordd y mae'r GIG yn casglu gwybodaeth a'r ffordd y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio.

Roedd gwefan y practis hefyd yn dangos gwybodaeth mewn perthynas â'r cofnodion gofal cryno ar gyfer NHS England, yn hytrach na'r Cofnodion Meddygon Teulu ar gyfer GIG Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn gysylltiedig â'r cofnod electronig o wybodaeth am gleifion a grëwyd o gofnodion meddygol meddygon teulu.

Gwelliannau angenrheidiol

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Cyflwyno taflen ddwyieithog am y practis
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol
- Diweddarau'r polisi cwyno ac ymgorffori'r holl wybodaeth angenrheidiol mewn perthynas â chymorth eiriolaeth a'r ombwdsmon

⁵<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Healthcare%20Quality%20-%20Guidance%20-%20Dealing%20with%20concerns%20about%20the%20NHS%20-%20Version%203%20-%20CLEAN%20VERSION%20%20-%2020140122.pdf>

⁶<https://digital.nhs.uk/services/national-data-opt-out/supporting-patients-information-and-resources>

⁷ <https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/pdfs/YourInfo-YourRights-English.pdf>

- Cael gwared ar fersiwn NHS England o *Your Data Matters* a rhoi'r fersiwn ar gyfer Cymru, sef Eich Gwybodaeth, Eich Hawliau/ *Your Information, Your Rights* yn ei lle
- Cael gwared ar Gofnodion Gofal Cryno NHS England a rhoi Cofnodion Meddygon Teulu Cymru yn eu lle.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Roedd y cleifion hefyd o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Roedd y cleifion â nam ar y clyw yn gallu defnyddio system dolen sain er mwyn helpu i gyfathrebu, a dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn cyfathrebu â rhai cleifion hollol fyddar drwy e-bost ac, yn ogystal â hynny, y gallent gael gafael ar gyfleusterau braille ar gyfer cleifion â nam ar y golwg, os bydd angen.

Cawsom wybod bod y mwyafrif o'r cleifion sy'n defnyddio'r practis yn siaradwyr Saesneg iaith gyntaf. Fodd bynnag, roedd aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael pe bai'r cleifion am gyfathrebu yn Gymraeg. Er bod posteri a thafenni ar gael yn Saesneg yn hawdd, nid oedd llawer yn ddwyieithog, fel y nodwyd mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

Dywedodd y staff wrthym fod negeseuon gan y cleifion yn cael eu cyfleu i'r aelodau priodol o'r staff ar lafar, eu hychwanegu at nodiadau'r meddyg ar ddyletswydd a'u dogfennu mewn llyfr dydd Meddyg Teulu.

Disgrifiodd y staff broses lle caiff y wybodaeth glinigol sy'n dod i law ei sganio a'i chodio, ac yna'i throsglwyddo i'r aelod priodol o'r staff. Ychwanegir gwybodaeth ymgynghori y tu allan i oriau at nodiadau clinigol, ac mae'r ymchwiliadau dilynol yn destun adolygiad misol. Fodd bynnag, nid yw'r practis wedi dogfennu'r broses hon mewn polisi ffurfiol.

Gwelliannau angenrheidiol

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Dogfennu'r broses yn ffurfiol lle caiff gwybodaeth glinigol ei rhoi mewn polisi ar gyfer y practis.

Gofal amserol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis ar y cyfan, a dywedodd y mwyafrif eu bod yn gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd pob un ond un o'r cleifion eu profiad fel un da iawn neu dda.

Gall y cleifion drefnu apwyntiadau arferol yn electronig sawl wythnos ymlaen llaw drwy Fy Iechyd Ar-lein⁸, neu dros y ffôn neu yn y practis. Gall y cleifion hefyd drefnu apwyntiadau brys ar y diwrnod a gaiff eu brysbennu gan un o'r meddygon teulu, a threfnu apwyntiad addas gyda'r gweithiwr gofal iechyd priodol. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent bob amser yn gallu trefnu apwyntiad i weld eu dewis feddyg.

Gellid hefyd ofyn am ymweliadau cartref ac, yn dilyn proses frysennu, cânt eu darparu lle y bo'n berthnasol. Gellid hefyd drefnu apwyntiadau i weld nyrsys, bydwragedd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Yn ogystal, cawsom wybod y gellir trefnu apwyntiadau yn unol ag anghenion y claf a'u hymestyn os bydd angen.

Mae'r practis ar agor rhwng 8am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 7.30am ar ddydd Gwener. Cynigir oriau estynedig yn y practis hyd at 7pm ar ddydd Mawrth. Darperir hyblygrwydd pellach i'r cleifion sy'n cael dewis defnyddio

⁸ <https://nwis.nhs.wales/myhealthonline/>

unrhyw un o'r tri phractis o fewn Meddygfa Cwm Rhymni. Nodwyd gennym fod hwn yn faes o arfer y mae'n werth tynnu sylw ato, er budd y cleifion.

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd ardal aros y cleifion, ystafelloedd ymgynghori ac ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, ac roeddent i gyd yn addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai hynny ag anawsterau symudedd.

Gwelsom hefyd fod gan ardal aros y cleifion ardal arbennig wedi'i haddurno'n addas i blant, a oedd yn cynnwys teganau a dodrefn.

Hawliau pobl

Mae gan y practis drefniadau ar waith er mwyn gwneud gwasanaethau'n hygyrch i bob claf, fel y nodwyd uchod. Yn ogystal, mae polisi cydraddoldeb ar waith, sy'n sicrhau bod y practis yn cyflawni ei ddyletswydd gofal, er mwyn darparu triniaeth deg a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Gall y cleifion gyfathrebu yn Gymraeg gan fod nifer o'r staff a gyflogir yn y practis yn ddwyieithog.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod y cleifion yn gallu codi pryderon os ydynt am wneud hynny, er nad oedd y cleifion hynny a gafodd eu cyfweld ar ddiwrnod yr arolygiad yn gyfarwydd â'r broses. Mae'r wefan yn rhoi manylion am sut i wneud cwyn ac roedd taflenni a phosteri ar gyfer proses Gweithio i Wella GIG Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned ar gael yn ystafell aros y cleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad yw'r practis yn gofyn i'r cleifion gwblhau arolwg, na rhoi adborth ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau, fel mater o drefn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Trefniadau i gyflwyno arolygon cleifion er mwyn cael barn y cleifion, a rhoi adborth ar y ffyrdd y gallant wella'r gwasanaethau.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, gwelsom drefniadau ar waith i hybu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn cydymffurfio â phob agwedd ar y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan, sy'n lleihau'r risg o groesheintio, ac roedd y cleifion hefyd yn fodlon ar lendid y practis. Fodd bynnag, gwelsom lwch o dan rhai gwelyau archwilio ac ar ben rheiliau llenni. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth o archwiliadau practis mewnol diweddar, gyda'r archwiliad hylendid dwylo diwethaf wedi'i gwblhau yn 2015.

Gwelsom nad oedd cyfarpar dadebru brys yn cael ei wirio'n rheolaidd, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru y DU. Yn ogystal, roedd y practis yn cadw presgripsiynau a lofnodwyd o fewn cyrraedd hawdd i'r cyhoedd, gan roi cyfrinachedd cofnodion y cleifion mewn perygl o bosibl ac arwain a pheri risg o ddwyn.

Gofal diogel

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r prosesau gwirio cyfarpar dadebru brys annigonol o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o gwmpas adeilad y practis, gwelsom fod ardaloedd y cyntedd a'r dderbynfa yn lân ac yn daclus. Roedd digon o seddi ar gael i'r cleifion, ac nid oedd yr ardal o gwmpas y seddi'n anniben.

Cawsom wybod bod y practis yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau ac adolygiadau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, drwy ddarparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer anghenion y cleifion gan gynnwys clinigau a

chyngor ar gyfer Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)⁹, diabetes, camddefnyddio sylweddau ac alcohol, a salwch meddwl.

Nid oes gan y practis gofrestr risg sy'n nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i faes gwaith, a'r dylanwad y gallant ei gael ar y reolaeth, cynaliadwyedd a datblygiad y practis. Fodd bynnag, mae gan y practis brosesau ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol, materion iechyd a diogelwch, a risgiau tân a dŵr.

Gwelsom fod peiriant ffacsimili'r practis wedi'i leoli yn ardal dderbynfa'r practis a oedd yn weladwy i'r cyhoedd. Roedd hyn o bosibl yn rhoi cyfrinachedd y cleifion mewn perygl, lle y gallai ymwelwyr ddarllen gwybodaeth a gyflwynir ar ddogfennau sydd wedi cael eu ffacsio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud y canlynol:

- Datblygu cofrestr risg er mwyn asesu, rheoli a chynllunio camau i liniaru risgiau a nodir
- Adleoli'r peiriant ffacsimili er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan, sy'n lleihau'r risg o groes-heintio, ac roedd y cleifion yn fodlon ar lendid y practis; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, heblaw am un, o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Roedd gel dwylo alcohol ar gael yn y practis mewn ardaloedd clinigol ac ardaloedd y cleifion, er mwyn i'r staff a'r cleifion gynnal hylendid dwylo. Roedd y cofnodion yn nodi bod yr archwiliad mewnol diwethaf o hylendid dwylo wedi cael ei gwblhau yn 2015. Dylai'r practis ystyried cynnal archwiliadau rheolaidd o hylendid dwylo.

⁹ <https://www.nhs.uk/conditions/chronic-obstructive-pulmonary-disease-copd/>

Gwelsom lwch o dan welyau archwilio'r cleifion ac ar ben rheiliau llenni, er bod yr amserlen lanhau yn dweud nad oedd unrhyw faterion i'w nodi. Cawsom wybod bod salwch ymysg y staff wedi effeithio ar y gwasanaethau glanhau.

Mae gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith ac mae ganddo arweinydd dynodedig ar gyfer hyn hefyd. Fodd bynnag, polisi bwrdd iechyd oedd hwn ac nid oedd wedi'i deilwra ar gyfer practis meddyg teulu ac nid oedd yn gyfredol chwaith.

Gwelsom fod gweithdrefnau rheoli gwastraff ar waith a bod archwiliadau misol yn cael eu cwblhau.

Roedd polisi Hepatitis B ar waith, ond nid yw'r practis yn cynnal cofnod o imiwnedd y staff i'r feirws.

Nid oes gan y practis bolisi ar waith ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff gwasanaethau glanhau digonol eu cynnal er gwaethaf absenoldeb aelodau o'r staff
- Adolygu a diweddarau'r polisi atal a rheoli heintiau ac ystyried rhoi polisi ar waith ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed
- Cadarnhau bod gan bob aelod o'r staff clinigol imiwnedd rhag Hepatitis B, a chynnal cofnod.

Rheoli meddyginiaethau

Mae'r practis yn cyflogi fferylllydd, sydd hefyd yn ymgymryd ag adolygiadau o feddyginiaethau, a chaiff adolygiadau rheolaidd eu cwblhau'n flynyddol.

Mae gan y practis systemau ar waith i roi gwybod i'r staff am y cleifion sy'n cael adweithiau niweidiol i feddyginiaethau ac unrhyw faterion diogelwch eraill. Cawsom wybod bod cyfarfodydd bob tri mis i adolygu unrhyw wallau rhagnodi neu ddigwyddiadau sylweddol.

Gwnaeth sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt ddarparu manylion am reoli meddyginiaethau a rhagnodi meddyginiaethau yn briodol.

Gwelsom nifer o bresgripsiynau a lofnodwyd yn ystafell dderbynfa'r practis, ac roeddent yn cael eu storio'n agos at fleindiau agored ystafell aros y cleifion. Gall hyn roi diogelwch y presgripsiynau a chyfrinachedd y cleifion mewn perygl. Aethpwyd i'r afael â'r mater ar ddiwrnod yr arolygiad a symudwyd y presgripsiynau i ardal ddiogel.

Roedd canllawiau rhagnodi'r Bwrdd Iechyd wedi cael eu mabwysiadu ond heb gael eu haddasu i'w defnyddio yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud y canlynol:

- Storio presgripsiynau a lofnodwyd yn ddiogel
- Addasu canllawiau rhagnodi'r Bwrdd Iechyd i'w defnyddio yn y practis.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Cawsom wybod bod Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar gael i'r practis, a bod systemau ar waith i nodi plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol chwarterol yn cael eu cynnal i drafod materion diogelu.

Mae gan y practis feddyg teulu wedi'i ddynodi'n arweinydd amddiffyn plant ac mae yna bolisi diogelu cyfredol sy'n rhoi manylion am y ffyrdd y gall y staff ddiogelu lles y plant a'r oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn nodi bod angen i nifer o'r staff gael hyfforddiant gloywi ar ddiogelu, ar gyfer plant ac oedolion. Cawsom wybod hefyd fod y clinigwyr yn cael hyfforddiant lefel tri, ond ni welsom dystiolaeth o hyn.

Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y practis a'u bod yn gallu siarad â'r staff pe dymument.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu ar gyfer plant ac oedolion, ac y caiff hyn ei gofnodi yng nghofnodion y staff.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru'n cael eu storio yn un o'r ystafelloedd triniaeth a oedd wedi'u lleoli y tu allan i ardal y brif dderbynfa. Roedd tystiolaeth bod dyddiad dod i ben a stoc y cyffuriau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y cofnodion yn nodi bod y cyfarpar dadebru brys yn cael ei archwilio bob mis ac nad oedd yn cael ei archwilio bob wythnos, yn unol â safonau ansawdd Cyngor Dadebru y DU ar gyfer lleoliadau gofal sylfaenol¹⁰.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn ag archwilio'r cyfarpar dadebru yn annigonol o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis wedi cael mynediad yn ddiweddar at system electronig o'r enw Datix, ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u cofnodi. Nid oes hyfforddiant wyneb yn wyneb i ddefnyddio'r system hon wedi cael ei roi ar waith. Fodd bynnag, mae'r practis wedi cael canllawiau defnyddwyr. Cawsom wybod bod cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal i drafod unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.

Caiff rhybuddion diogelwch eu hanfon at y staff drwy negeseuon e-bost a Whatsapp at feddygon teulu a'u cyfleu drwy feddalwedd gofal iechyd ddeallus Vision i'r holl staff. Mae meddalwedd Vision yn galluogi gweithwyr iechyd

¹⁰ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

proffesiynol i weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gofynion y practis a gofal y cleifion.

Mae'r clinigwyr yn cwrdd bob chwarter i drafod digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau sylweddol eraill.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cawsom wybod bod y canllawiau a'r arferion gorau'n cael eu dosbarthu i aelodau perthnasol o'r staff drwy e-bost a thrwy gyhoeddiadau ar feddalwedd gofal iechyd ddeallus Vision.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Cawsom wybod bod y clinigwyr yn trafod achosion clinigol, diagnosisu difrifol a derbyniadau brys yn anffurfiol bob dydd, ac yn cael cyfarfod bob wythnos i drafod unrhyw faterion sy'n codi.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom fod ansawdd y wybodaeth am ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amrywio. Fodd bynnag, roedd y staff yn gallu cael gafaél ar wybodaeth yn electronig os oedd angen.

Cadw cofnodion

Cawsom wybod bod gan y practis bolisi ar gyfer cofnodi a chrynhoi data'n gyson, a sicrhau bod y cofnodion data yn gyson â chlwstwr NCN a chynlluniau datblygu. Roedd hyfforddiant y staff ar grynhoi cofnodion yn ymddangos yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion, a gwnaethom nodi bod y cofnodion yn cael eu cynnal i safon foddhaol. Gwelsom fod y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd boddhaol, gan nodi'r gofal a'r driniaeth a ddarperir, y diagnosis, y feddyginiaeth a ragnodir ac unrhyw ganfyddiadau clinigol. Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys crynodeb o gyflyrau sylweddol a meddyginiaeth hirdymor. Roedd tystiolaeth yng nghofnodion y cleifion bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion fel y gallant ddeall eu hiechyd a'u salwch eu hunain.

Mae'r practis yn defnyddio codau READ¹¹ ar gyfer cyflyrau cyffredin a phroblemau o ran afiachusrwydd¹². Roedd hyfforddiant y staff yn ymddangos yn gyfredol. Gwelsom fod y defnydd o godau READ, yng nghofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt fel rhan o'r arolygiad, yn foddhaol.

Disgrifiwyd trefniadau i grynhoi gwybodaeth yng nghofnodion meddygol electronig y cleifion. Cawsom wybod bod y practis yn cyflogi tri chodiwr clinigol sydd wedi cael eu hyfforddi ac sy'n gyfrifol am grynhoi, cofnodi a chodio gwybodaeth am y cleifion. Dywedodd y practis wrthym fod codwyr a meddygon teulu yn cwrdd yn rheolaidd i drafod cadw cofnodion.

¹¹System godio gyfrifiadurol i'w defnyddio gan glinigwyr yw codau READ, a chânt eu defnyddio mewn cofnodion gofal iechyd electronig

¹²Mae afiachusrwydd yn cyfeirio at gael clefyd neu symptom o glefyd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae practis grŵp Meddygfa Cwm Rhymni yn cyflogi tîm amlddisgyblaethol sy'n cwmpasu pob un o'r tri safle gan gynnwys Tredegar Newydd. Caiff y practis ei reoli o ddydd i ddydd gan reolwr y practis a dirprwy reolwr y practis.

Roedd ffeiliau personol y staff yn cyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr mewn perthynas â chontractau cyflogaeth, disgrifiadau swydd ac arfarniadau blynyddol. Nodwyd bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)¹³ yn gyfredol ar gyfer y staff, a bod y manylion wedi'u ffeilio yn ffeiliau personol y staff.

Roedd matrices hyfforddiant y staff yn anghyflawn, a dynnodd sylw at y ffaith nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu.

Nodwyd gennym fod rhai polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar goll, a bod angen adolygu rhai eraill er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau presennol y practis.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod y practis yn darparu gwasanaethau gan dîm amlddisgyblaethol, a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned. Roedd tystiolaeth o linellau cyfathrebu clir rhwng partneriaid y practis.

¹³Caiff gwiriadau DBS eu gwneud ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu i gael manylion am euogfarnau troseddol presennol

Cawsom wybod bod tîm y practis yn ymgysylltu â'r grŵp clwstwr lleol bob dau fis. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Bwrdd Iechyd.

Cawsom wybod bod cyfarfodydd staff yn anodd i'w trefnu gan fod y staff yn gweithio mewn tri safle prysur. Roedd y ffaith mai ym mis Mawrth 2017 y cynhaliwyd y cyfarfod staff ffurfiol diwethaf yn pwysleisio hyn. Fodd bynnag, cawsom wybod bod cyfarfodydd anffurfiol llai yn cael eu cynnal a bod y staff yn cael gwybod am faterion cyfredol drwy e-bost a chyhoeddiadau ar system electronig Vision.

Mae'r practis yn cynnal matrices hyfforddiant sy'n crynhoi statws hyfforddiant y staff. Fodd bynnag, gwelsom fod y matrices yn anghyflawn ac nad oedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu.

Roedd angen i rai aelodau o'r staff gael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol. Cadarnhaodd y practis fod hyfforddiant wedi'i drefnu.

Roedd ffeiliau'r staff yn cadarnhau bod gwiriadau DBS cyfredol wedi'u cwblhau, a bod y practis yn cadw copïau o'r gwiriadau DBS ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu ar waith, ond gwnaethom nodi bod rhai polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar goll a bod angen adolygu rhai eraill.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu hailgyflwyno a'u dogfennu'n briodol
- Sicrhau bod hyfforddiant y staff yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r matrices hyfforddiant yn gywir
- Adolygu a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n gweithio yn y tair cangen gan gynnwys Canolfan Feddygol White Rose yn Nhredegar Newydd.

Wrth edrych ar sampl o gofnodion personol y staff gwelsom fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael arfarniadau blynyddol.

Roedd llawlyfr staff ar waith a oedd yn rhoi gwybodaeth i gyflogeion y practis am eu cyflogaeth a'u swyddi.

Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol y staff o fewn ffeiliau'r staff. Mae'r arfarniadau hyn yn rhoi llwyfan i'r staff drafod eu cyflogaeth a'u datblygiad proffesiynol ac yn rhoi cyfle i'r rheolwyr roi adborth i'r staff am eu gwaith.

Yn y ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt, roedd tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau recriwtio, fel geirdaon ysgrifenedig a gwiriad DBS i'r lefel ofynnol, wedi cael eu cynnal i gadarnhau bod staff yn addas i weithio yn y practis. Fodd bynnag, roedd y practis yn cadw'r tystysgrifau DBS, a dywedwyd wrth uwch-aelodau o'r staff y dylai'r rhain gael eu dychwelyd i'r aelod o'r staff, ac mai dim ond copi y dylid ei gadw ar feil.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisiau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisiau meddygon teulu. Bydd practisiau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisiau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisiau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisiau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryder a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryder hwn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nifer o bresgripsiynau a lofnodwyd yn nerbynfa'r practis mewn lleoliad agos at fleindiau agored ystafell aros y cleifion.	Perygl posibl i gyfrinachedd y cleifion. Posibilrwydd o achosion o ddwyn presgripsiynau.	Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn ar ddiwrnod yr arolygiad.	Symudwyd y presgripsiynau i ardal ddiogel.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol White Rose Tredegar Newydd

Dyddiad arolygu: 2 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys un pryder uniongyrchol am ddiogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle roeddem yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Ystyriodd y tîm arolygu'r trefniadau ar gyfer archwilio offer dadebru a chyffuriau.</p> <p>Mae'n rhaid i system ddibynadwy o archwiliadau cyfarpar fod ar waith, er mwyn sicrhau bod y cyfarpar a'r cyffuriau bob amser ar gael ac yn barod i'w defnyddio mewn argyfwng, megis ataliad cardioanadlol neu sioc anaffylactig. Gwnaethom ystyried ymhellach gan fod y practis yn darparu gwasanaethau i boblogaeth fawr, gan gynnwys cleifion â hanesion meddygol cymhleth, a bod nyrsys yn cynnig brechiadau i'r plant a'r oedolion yn rheolaidd, y dylai'r cyfarpar brys gael ei archwilio o leiaf unwaith yr wythnos, ond bob diwrnod gwaith yn ddelfrydol.</p>	Safon 2.1 a 3.1	Ar ôl ystyried cyngor AGIC cymerwyd camau ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad er mwyn sicrhau bod y diffibriliwr yn cael ei archwilio bob dydd. Mae cofnodlyfr wedi cael ei greu i gofnodi dyddiad/amser a chaiff ei lofnodi gan y person sy'n archwilio'r cyfarpar.	Alyson Jones Rheolwr y Practis	Cwblhawyd yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar dadebru ond yn cael ei archwilio unwaith y mis.</p> <p>Mae'n rhaid i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd ar unwaith i sicrhau bod cyfarpar dadebru brys yn cael ei archwilio o leiaf unwaith bob wythnos, a'i fod bob amser ar gael, yn gweithio'n iawn ac yn ddiogel i'w ddefnyddio, os ceir argyfwng gyda chlaf sy'n oedolyn neu glaf paediatrig.</p>				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Alyson Jones

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 6 Medi 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol White Rose, Tredegar Newydd

Dyddiad arolygu: 2 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Darparu'r holl wybodaeth yn ddwyieithog, yn y practis ac ar y wefan, yn unol â'r Cynnig RhagweithiolCyflwyno cyfleuster arolwg cleifion, casglu barn y cleifion gyda'r bwriad o wella gwasanaethau lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'n rhaid i welliannau ac ychwanegiadau i wasanaethau gael eu harddangos yn ystafell aros y cleifion ac ar y wefan	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	<p>Bydd y practis yn ymdrechu i arddangos poster/gwybodaeth i'r cleifion yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol</p> <p>Caiff arolwg ei roi ar y wefan a bydd ar gael yn ystafell aros y practis</p> <p>Yn y broses o greu taflen am y practis</p>	<p>Rheolwr y Practis Dirprwy Reolwr y Practis</p>	<p>31 Ionawr 2020</p> <p>31 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu taflen am y practis sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a nodir ar y wefan. 			Rheolwr y Practis Ysgrifennydd / Arweinydd TG	31 Ionawr 2020
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod swyddfa'r staff yn y dderbynfa ar gau bob amser, ac wedi'i chloi yn ddelfrydol, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r staff Y caiff y polisi hebryngwyr ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu canllawiau arferion da GMC ar gyfer hebryngwyr. 	4.1 Gofal ag Urddas	<p>Cwblhawyd. Cloeon digidol wedi'u gosod ar 12 Tachwedd 2019</p> <p>Polisi wedi cael ei ddiweddarau a'i ddsbarthu i'r staff. Fe'i trafodwyd a chytunwyd arno yn y cyfarfod clinigol a drefnwyd, 13 Tachwedd 2019</p>	<p>Dirprwy Reolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd 12 Tachwedd 2019</p> <p>Cwblhawyd 13 Tachwedd 2019</p>
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno taflen ddwyieithog am y practis Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol 	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	<p>Fel y nodir uchod – yn y broses o greu taflen</p> <p>Wrthi'n llunio taflenni newydd/addasu unrhyw wybodaeth am gleifion fel ei bod ar gael yn Gymraeg</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Ysgrifennydd / Arweinydd TG</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	31 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau'r polisi cwyno ac ymgorffori'r holl wybodaeth angenrheidiol mewn perthynas â chymorth eiriolaeth a'r ombwdsmon • Cael gwared ar fersiwn NHS England o <i>Your Data Matters</i> a rhoi'r fersiwn ar gyfer Cymru, sef Eich Gwybodaeth, Eich Hawliau/<i>Your Information, Your Rights</i> yn ei lle • Cael gwared ar Gofnodion Gofal Cryno NHS England a rhoi Cofnodion Meddygon Teulu Cymru yn eu lle. 		<p>Polisi wedi'i ddiweddarau</p> <p>Cwblhawyd 28 Hydref 2019. Y wefan wedi'i hadolygu gan y darparwr a'i diweddarau</p> <p>Cwblhawyd 28 Hydref 2019</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd 28 Hydref 2019</p> <p>Cwblhawyd 28 Hydref 2019</p> <p>Cwblhawyd 28 Hydref 2019</p>
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennu'r broses yn ffurfiol lle caiff gwybodaeth glinigol ei rhoi mewn polisi ar gyfer y practis. 	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Cwblhawyd 23 Hydref 2019. Mae'r meddygon teulu wedi cytuno ar ddiweddariad i'r polisi ac mae wedi'i ddosbarthu i'r staff</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd 23 Hydref 2019</p>
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau i gyflwyno arolygon cleifion er mwyn cael barn y cleifion, a rhoi 	<p>6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth</p>	<p>Fel y nodir uchod yn 1.1</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
adborth ar y ffyrdd y gallant wella'r gwasanaethau.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu cofrestr risg er mwyn asesu, rheoli a chynllunio camau i liniaru risgiau a nodir Adleoli'r peiriant ffacsimili er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion. 	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	<p>Wrthi'n llunio cofrestr risg</p> <p>Cwblhawyd 3 Medi 2019. Y peiriant ffacsimili wedi'i symud i fan mwy priodol</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31 Ionawr 2020</p> <p>Cwblhawyd 3 Medi 2019</p>
<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y caiff gwasanaethau glanhau digonol eu cynnal er gwaethaf absenoldeb aelodau o'r staff Adolygu a diweddarau'r polisi atal a rheoli heintiau ac ystyried rhoi polisi ar 	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi	<p>Cwblhawyd 12 Tachwedd 2019. Mae'r cwmni glanhau wedi cyflogi mwy o staff ac mae staff ychwanegol ar gael i gyflenwi yn ystod unrhyw absenoldeb</p> <p>Cyfarfod clinigol wedi'i drefnu i ddiweddarau'r polisiau hyn a'u rhoi ar waith</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd 12 Tachwedd 2019</p> <p>31 Ionawr 2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>waith ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed</p> <ul style="list-style-type: none"> Cadarnhau bod gan bob aelod o'r staff clinigol imiwnedd rhag Hepatitis B, a chynnal cofnod. 		<p>Mae rhai aelodau o'r staff wedi darparu tystiolaeth o imiwnedd rhag Hepatitis B ac mae eraill yn y broses o gael eu hailbrofi</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31 Ionawr 2020</p>
<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Storio presgripsiynau a lofnodwyd yn ddiogel Addasu canllawiau rhagnodi'r Bwrdd lechyd i'w defnyddio yn y practis. 	<p>2.6 Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Cwblhawyd 2 Medi 2019. Symudwyd y presgripsiynau i leoliad mwy diogel</p> <p>Yn cael eu defnyddio'n barod</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd 2 Medi 2019</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu ar gyfer plant ac oedolion, ac y caiff hyn ei gofnodi yng nghofnodion y staff. 	<p>2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg</p>	<p>Parhaus. Mae amser wedi cael ei neilltuo i bob aelod o'r staff gwblhau modiwl e-ddysgu</p>	<p>Rheolwr y Practis</p>	<p>31 Ionawr 2020</p>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu hailgyflwyno a'u dogfennu'n briodol Sicrhau bod hyfforddiant y staff yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r matrices hyfforddiant yn gywir Adolygu a diweddarau polisiau a gweithdrefnau. 	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Cwblhawyd. 12 Tachwedd 2019. Mae'n anodd galluogi'r staff o bob un o'r tri safle i fod mewn cyfarfod ar yr un pryd heb gau'r practis. Rydym yn ymdrechu i gynnwys y staff mewn cyfarfodydd llai, a newid pa aelodau sy'n bresennol, a byddwn yn sicrhau y cânt eu dogfennu yn ôl yr angen.</p> <p>Fel 2.7, neilltuo amser er mwyn sicrhau y caiff modiwlau hyfforddiant eu cwblhau. Parhau i ddiweddarau'r matrices er mwyn adlewyrchu'r hyfforddiant a gynhelir.</p> <p>Mae'r nyrsys wedi cwrdd ar 12 Tachwedd 2019 a chytunwyd ar ddiweddariadau.</p>	<p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p> <p>Rheolwr y Practis</p>	<p>Cwblhawyd 12 Tachwedd 2019</p> <p>31 Ionawr 2020</p> <p>31 Ionawr 2020</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alyson Jones

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 07/11/2019